Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Interim

Asesiad o gynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2025.

Hydref 2025

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025. Fe'i paratowyd ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae:

- arferiad swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2025-26;
- cynnydd wedi cael ei wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun; ac
- y mae cynnydd wedi cael ei wneud tuag at fodloni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O'r herwydd, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen cywirdeb cyfreithiol.

Os byddwch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Audit Wales
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

X @WalesAudit

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cynnwys

**Rhagair** 4

**Cyflawni archwiliadau** 6

Gwaith archwilio lleol 6

Astudiaethau cenedlaethol 8

Cynorthwyo craffu ac atebolrwydd effeithiol 10

**Gwelliant busnes** 11

Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel 12

Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu 15

Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu 16

**Dangosyddion perfformiad allweddol** 18

# Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno ein Hadroddiad Interim ar gyfer 2025.

We are pleased to present our Interim Report for 2025.

Mae'r Adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025 ar ddarparu'r rhaglenni gwaith a'r targedau dangosyddion perfformiad allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26. Nid ydym yn gallu adrodd yn erbyn rhai o'r dangosyddion perfformiad gan nad yw'r data ar gyfer y mesurau blynyddol hyn ar gael eto.

Fe wnaethom gynnydd da o ran darparu rhaglen gynhwysfawr ac effeithiol o waith archwilio. Cwblhawyd pob archwiliad ac eithrio un o gyfrifon GIG 2024-25 erbyn 30 Mehefin 2025. Cwblhawyd yr holl archwiliadau a drefnwyd o gyfrifon llywodraeth ganolog erbyn 30 Medi 2025. Fodd bynnag, mae problemau ansawdd gyda rhai cyfrifon llywodraeth leol drafft 2024-25, ynghyd â dirywiad i ansawdd papurau gwaith ac oediadau i ymatebion cyrff llywodraeth leol i ymholiadau archwilio, yn golygu bod cyflawni pob archwiliad yn llwyddiannus yn y sector hwn erbyn y terfyn amser o 31 Hydref mewn perygl.

Fe wnaethom ddarparu chwe allbwn adroddiad cenedlaethol yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2025 o'n rhaglen o astudiaethau cenedlaethol. Fe wnaethom barhau i lunio ein gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau esblygol a wynebir gan gyrff a archwilir.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd o 77% i ohebiaeth newydd ac achosion chwythu'r chwiban allanol o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. Mae'r rhain yn llwybrau y gall y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig ac eraill eu defnyddio i godi pryderon posibl am y defnydd o arian cyhoeddus, i hysbysu ein gwaith archwilio.

O ran ein blaenoriaethau gwelliant busnes tymor hwy, fe wnaethom gynnydd da ar weithio gyda chyrff a archwilir i symud yr amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon ymhellach ymlaen. Y flwyddyn nesaf, bydd y terfyn amser ar gyfer archwiliadau llywodraeth leol yn cael ei symud ymlaen o fis arall i 30 Medi. Bydd bodloni'r terfyn amser yn dibynnu'n fawr ar allu cyrff llywodraeth leol i ddarparu cyfrifon drafft o ansawdd da i ni ac i ymateb i ymholiadau yn fwy prydlon.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran symud elfennau o'n gwaith archwilio perfformiad lleol ymlaen a rhoi mwy o bwyslais ar werth am arian trwy waith dadansoddi ariannol a chanlyniadau cryfach, er bod mwy i'w wneud yn y maes hwn o hyd.

Fe wnaethom hefyd fwrw ymlaen â'n hymateb i adolygiad o ba mor effeithiol ydym ni o ran ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, gan gynnwys trwy ddatblygu canllawiau i ymgorffori cynhwysiant ymhellach trwy ein prosesau cyfathrebu.

Yn ystod y rhan fwyaf o'r chwe mis diwethaf, fe wnaethom gynnal menter i archwilio'r defnydd posibl o Microsoft Copilot i wella ansawdd, cynhyrchiant, a hyder digidol ar draws y sefydliad. Nodwyd sawl achos defnydd addawol drwy'r cynllun peilot i'w harchwilio ymhellach, yn amodol ar gadw lefelau priodol o grebwyll a throsolwg dynol.

Yr Adroddiad Interim hwn yw'r olaf o gyfnod Adrian fel Archwilydd Cyffredinol ac adroddiadau ar gynnydd parhaus tuag at gyflawni ein strategaeth pum mlynedd. Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm hwn yn ystod gweddill y flwyddyn, gan ddefnyddio ein safbwynt a'n harbenigedd unigryw i sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cyflawni Archwiliadau

## Gwaith archwilio lleol

1 Rydym yn gwneud gwaith archwilio lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn wedi'i gyfansoddi'n bennaf o waith archwilio cyfrifon a pherfformiad lleol. Darperir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio a'r math o waith archwilio lleol sy'n cael ei wneud yn y cyrff hynny yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26.

2 Maes mwyaf ein gwaith lleol yw archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae ein gwaith cyfrifon yn rhoi asesiad annibynnol ac arbenigol parhaus i'r Senedd, cyrff sy'n cael eu harchwilio a'r cyhoedd yn ehangach o reolaeth a gwydnwch ariannol ar draws y sector cyhoeddus.

3 Ar 30 Medi 2025, roedd gwaith yn parhau i gwblhau ein harchwiliadau o gyfrifon 2024-25 ar draws gwahanol sectorau. Ag un eithriad, fe wnaethom gwblhau ein gwaith cyfrifon mewn cyrff GIG ym mis Mehefin 2025 yn unol â'n cynllun cyflawni. Ardystiwyd y cyfrifon ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar 1 Awst 2025 oherwydd problemau a nodwyd gan archwiliad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff wneud gwaith ychwanegol ar y cyfrifon drafft. Erbyn diwedd mis Medi 2025, roedd yr holl archwiliadau a drefnwyd o gyfrifon 2024-25 llywodraeth ganolog wedi'u cwblhau hefyd.

4 Mewn llywodraeth leol, mae cyflawni archwiliadau o gyfrifon erbyn y terfyn amser o 31 Hydref yn parhau i fod yn her. Mae problemau ansawdd gyda rhai cyfrifon llywodraeth leol drafft 2024-25, ynghyd â dirywiad i ansawdd papurau gwaith ac oediadau i ymatebion cyrff llywodraeth leol i ymholiadau archwilio, yn golygu bod cyflawni pob archwiliad yn llwyddiannus erbyn y terfyn amser o 31 Hydref mewn perygl. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chyrff unigol a'r sector ehangach i gynorthwyo ardystiad prydlon ar gyfer 2024-25 ac i ysgogi gwelliannau i'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gallu'r sector i gynhyrchu cyfrifon o ansawdd uchel a phrydlon ar gyfer 2025-26 yn destun pryder sylweddol, ac mae un corff heb gwblhau ar gyfer 2022-23 a thri heb gwblhau ar gyfer 2023-24.

5 Fe wnaethom barhau i lunio a chyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau esblygol a wynebir gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio, a lle'n berthnasol ac yn ymarferol i helpu i gyflawni dyletswyddau archwilio datblygiad cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol.

6 Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:

- Yn y GIG, cwblhau ein gwaith ar arbedion ariannol a chefnogi gwelliant trwy restr wirio arferion da i aelodau byrddau. Rydym hefyd wedi cwblhau adolygiadau o ôl-groniadau rhestr aros ym mhob bwrdd iechyd ac wedi cyflawni i raddau helaeth ein rhaglen waith ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, sydd wedi cynnwys ffactorau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio ar ryddhau cleifion yn brydlon. Mae gwaith Asesu Strwythuredig ac adolygiad o drawsnewid digidol wedi cychwyn ym mhob corff GIG ac mae gwaith cynllunio wedi'i gwblhau ar gyfer ein gwaith ar ystâd y GIG a'r ddarpariaeth o wasanaethau canser
- Mae gwaith ym mhob un o'r 22 cyngor ar eu trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau wedi'i gwblhau, ac mae adroddiad cenedlaethol yn cael ei ddrafftio, gan amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar allu'r sector i sicrhau gwerth am arian trwy roi'r trefniadau hyn ar waith. Mae gwaith maes wedi cychwyn ar draws y sector yn canolbwyntio ar bwysau gweithlu a sut mae cynghorau yn rheoli problemau recriwtio a chadw. Mae gwaith sicrwydd ac asesu risg yn cael ei gyflwyno ym mhob cyngor lle mae archwiliadau wedi'u teilwra yn parhau i gael eu darparu.

7 Ym mis Medi 2025, fe wnaethom hefyd gyhoeddi Adroddiad ar fethiannau llywodraethu ac ymgysylltiad aelodau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Canfu'r adolygiad dilynol hwn, a archwiliodd werthoedd ac ymddygiadau ar lefel uwch ar draws y Cyngor, nad yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn â'n hargymhellion blaenorol eto.

8 Darperir rhagor o wybodaeth am gynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael ag ôl-groniad yn ein gwaith archwilio lleol a dychwelyd ein rhaglenni gwaith mawr i amserlenni cyn y pandemig yn adran Gwelliant Busnes yr adroddiad hwn.

## Astudiaethau cenedlaethol

9 Rydym yn cynnal rhaglen barhaus o astudiaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau eraill sy'n canolbwyntio ar y GIG a llywodraeth leol yn ogystal â'n rhaglenni archwilio lleol yn y sectorau hynny. Rydym hefyd yn paratoi allbynnau ychwanegol yn amlygu themâu cyffredin o'n gwaith archwilio lleol.

10 Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26 yn cynnwys manylion m astudiaethau cenedlaethol a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2025 ac am waith newydd yr oeddem yn bwriadu ei gychwyn yn 2025-26. Rydym wedi gwneud rhagor o wybodaeth am waith sydd ar y gweill ar gael ar ein gwefan.

11 Mae'r tabl isod yn rhestru chwe allbwn proffil uwch o adroddiadau cenedlaethol o wahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2025.

12 Mae'r allbynnau hyn ar gael ochr yn ochr ag adroddiadau eraill ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog sy'n rhan o'r pecyn ehangach o waith cenedlaethol a ddisgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ond nad ydynt wedi cael eu datgan i'r wasg yn unigol. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar bennu amcanion llesiant yn Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau ar gynaliadwyedd ariannol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Chwaraeon Cymru.

13 Byddwn yn parhau i adolygu ein rhaglen o astudiaethau yn rheolaidd, gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd allanol esblygol, ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Rydym yn cynnal hyblygrwydd digonol fel y gallwn ymateb yn effeithiol i faterion sy'n peri pryder cyhoeddus neu seneddol sy'n dod i'r amlwg. Gallai allbynnau ychwanegol hefyd ymddangos o waith ymchwil a datblygu parhaus.

## Allbynnau adroddiad cenedlaethol a gwblhawyd yn y cyfnod adrodd

| | Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Cydnerthedd y gwasanaeth a mynediad | Gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu rheoli'n dda |
|---|---|---|---|---|
| Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Cynllunio arbedion costau'r GIG | | | | ✓ |
| Llety Dros Dro, argyfwng hirdymor? | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolfan Forol Porthcawl a fethodd | | | | ✓ |
| Cyllid y GIG a diweddariad i'r offeryn data | | | | ✓ |

## Cynorthwyo craffu ac atebolrwydd effeithiol

### Cynorthwyo gwaith y Senedd

14 Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd ein gwaith i chwarae rhan allweddol o ran cynorthwyo gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn ei ystyriaeth o sut y defnyddir adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

15 Fe wnaeth yr allbynnau o'n gwaith gynorthwyo chwech o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys briffio'r Pwyllgor ar rai o allbynnau'r adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod (o'r rhestr uchod).

16 Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thimau clercio ac ymchwil i bwyllgorau Senedd eraill i drafod ein gwaith lle mae hyn o fudd i'r ddwy ochr. Fe wnaethom roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ym mis Mehefin yn rhan o'i ymchwiliad i weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ac fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig dros yr haf i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i gynorthwyo ei waith craffu ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

### Cynorthwyo pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

17 Trwy gydol y cyfnod adrodd, fe wnaethom fynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd i ddarparu sesiynau briffio ac i adrodd ar ein gwaith archwilio lleol.

18 Fe wnaethom hefyd barhau ein sesiynau briffio rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag archwiliadau i grwpiau Cadeiryddion Pwyllgor Archwilio a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG, Grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru llywodraeth leol a'i Is-grŵp Prif Gyfrifyddion, a'r Grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Llywodraeth Ganolog.

### Cynorthwyo'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

19 Rydym yn derbyn gohebiaeth reolaidd gan y cyngor, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y stiwardiaeth o arian ac asedau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn Berson Rhagnodedig ar gyfer derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban am gyflawni busnes cyhoeddus yn briodol, gwerth am arian, twyll a llygredd o ran y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

20 Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fe wnaethom dderbyn 90 eitem o ohebiaeth a sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn ffordd deg, gymesur, a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 16 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2025 yn dynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban. Yn gyfunol, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 77% i achosion newydd o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024.

# Gwelliant busnes

21 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, fe wnaethom nodi tri maes o bwyslais lle’r ydym yn blaenoriaethu camau i helpu Archwilio Cymru i wireddu ei weledigaeth gyffredinol.

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi’i dargedu ac sy’n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu

22 Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26, fe wnaethom nodi ein blaenoriaethau cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, yn cyd-fynd â’r meysydd pwyslais strategol y maent yn berthnasol iddynt. Mae’r tablau canlynol yn nodi’r cynnydd yr ydym wedi ei wneud tuag at gyflawni pob un o’r blaenoriaethau hynny yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2025.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26 |
|---|---|
| Dod â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon 2024-25 yn nes at 30 Mehefin ar gyfer y GIG a 31 Hydref ar gyfer llywodraeth leol (y dyddiadau cau cyfrifon cyfatebol ar gyfer 2023-24 oedd 15 Gorffennaf a 30 Tachwedd). | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Ardystiwyd bron i bob cyfrif GIG a llywodraeth ganolog a drefnwyd 2024-25 yn brydlon. Er bod cyflawni archwiliadau cyfrifon y sector llywodraeth leol erbyn y terfyn amser diwygiedig o 31 Hydref yn parhau i fod yn her, bydd yr holl gyfrifon llywodraeth leol a baratowyd yn brydlon yn cael eu hardystio erbyn y terfyn amser. Rydym hefyd yn parhau i gynorthwyo cyrff sydd â chyfrifon y flwyddyn flaenorol yn agored.<br>Dros y chwe mis diwethaf, fe wnaethom weithio ar y cyd â Gweithrediaeth Cymdeithas Trysoryddion Cymru llywodraeth leol a'r Grŵp ehangach trwy gyfarfodydd rheolaidd, gweithdai, a chyfranogiad mewn fforymau allweddol fel yr Is-grŵp Prif Gyfrifyddion. Rhoddodd y gwaith hwn gyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth archwilio a myfyrio ar heriau sector, gyda'r nod o gwblhau'n gynharach trwy gyfrifon mwy prydlon ac wedi'u cefnogi'n well.<br>Rydym hefyd wedi trefnu dau ddigwyddiad Arfer Da ar gyfer Rhagfyr 2025, yn canolbwyntio ar brif thema o 'Working Together to Deliver Quality and Timely Local Authority Accounts'. Bydd y digwyddiadau hyn yn dod â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector ynghyd i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd o ran cryfhau adrodd ariannol ar draws llywodraeth leol Cymru. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26 |
| --- | --- |
| Dod â'r amserlen yn nes ar gyfer cwblhau gwaith perfformiad lleol fel bod y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn tri mis i ddiwedd y flwyddyn y mae'r cynllun archwilio yn ymwneud â hi. | **Statws:** Angen gwella<br>**Sylwadau:**<br>Yn y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2025, fe wnaethom gynnydd o ran symud yr amserlenni ar gyfer cyflawni ein gwaith llywodraeth leol a GIG yn ystod y flwyddyn ymlaen, a gwnaed ymdrechion sylweddol hefyd i leihau'r ôl-groniad a oedd yn weddill ar ôl y pandemig.<br>I gyflymu'r gwaith hwn, sicrhawyd rhywfaint o adnoddau ychwanegol o dimau eraill ar draws y sefydliad i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni archwiliadau perfformiad lleol, ochr yn ochr â chapasiti archwilwyr wrth gefn ychwanegol. Fodd bynnag, mae heriau parhaus o ran adnoddau yn dal i fodloni, ac mewn rhai achosion mae cyflymder y mewnbwn gan gyrff sy'n cael eu harchwilio wedi cael effaith.<br>Dros y cyfnod adrodd, rydym hefyd wedi bwrw ymlaen â gwaith prosiect a fydd yn gwella ansawdd a hygyrchedd gwybodaeth rheolwyr am y gwaith o gyflawni ein prosiectau a rhaglenni archwilio lleol. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26 |
|---|---|
| Mwy o bwyslais ar werth am arian drwy ddadansoddi ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom lansio templed adrodd archwilio perfformiad newydd. Bwriedir i'r templed dynnu ffeithiau a ffigurau allweddol allan mewn ffordd fwy eglur, gan gynnwys am wariant a chanlyniadau. Mae gwaith wrthi'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ymgorffori'r dull templed newydd yn llawn, gan gynnwys trwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol i adolygwyr adroddiadau. Rydym hefyd wedi diweddaru ein canllawiau i archwilwyr ar agweddau ar ein gwaith archwilio lleol i annog mwy o bwyslais ar ganlyniadau.<br>Yn rhan o'n gwaith Menter Twyll Genedlaethol diweddar, fe wnaethom ddatblygu offeryn data i'w gwneud yn haws i asesu cynnydd cyrff o ran adolygu achosion o gydweddu data twyll/gwallus posibl a'r canlyniadau sy'n cael eu sicrhau. Rydym yn defnyddio'r offeryn data i gynorthwyo ein hymgysylltiad â chyrff sy'n cymryd rhan ac i ddarparu sesiynau briffio i bwyllgorau archwilio lleol. Bydd y gwaith hwn yn hysbysu ein hadroddiad Menter Twyll Genedlaethol nesaf yn ystod hydref 2026 a'n hystyriaethau ynghylch cyfleoedd cydweddu data yn y dyfodol. Yn y misoedd diwethaf, rydym hefyd wedi cwblhau gwaith cydweddu data peilot ar gofrestriadau meddygon teulu'r GIG i raddau helaeth.<br>Ddiwedd mis Medi 2025, roeddem wedi cwblhau i raddau helaeth gwaith archwilio lleol ar ofal brys a gofal mewn argyfwng, ac ar ofal GIG a gynlluniwyd. Byddwn yn rhannu negeseuon crynodeb cenedlaethol yn ddiweddarach eleni, gan gynnwys dod â dadansoddiadau ynghylch cyfleoedd arbedion ariannol posibl ynghyd.<br>Ynghyd â holl asiantaethau archwilio eraill y DU, rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn gwaith treialu cymhwyster archwilwyr gwerth am arian CIPFA lefel tystysgrif a datblygu cymhwyster lefel uwch. I gychwyn, byddwn yn cynorthwyo dau aelod o staff i gofrestru yn rhan o'r garfan gyntaf o gyfranogwyr ar gyfer y cymhwyster lefel uwch o ddechrau 2026. |

# Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26 |
|---|---|
| Cyflawni cynnydd yn y cyrhaeddiad a'r ymwybyddiaeth o'n gwaith a'i effaith ar gymunedau yng Nghymru, drwy annog mwy o bobl i ddarllen, rhannu a gweithredu ar ein cynnwys. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Dros y chwe mis diwethaf, lansiwyd 'Hyb Arddull' yn fewnol, gan gynnig siop un stop i staff ar yr holl ganllawiau ysgrifennu a dylunio, gan gynnwys ynghylch ein templed adrodd archwiliadau perfformiad newydd.<br>Fe wnaethom hefyd adolygu ein defnydd o sianelau cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar, â phwyslais ar ddatblygu ein safle LinkedIn i gynyddu'r niferoedd sy'n ei ddefnyddio a hyrwyddo cyfleoedd recriwtio ac effaith ein gwaith yn well.<br>Yn rhan o'r fenter strategol i archwilio'r defnydd posibl o offerynnau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn), fe wnaethom hefyd gynnal cyfres o dreialon i ddarganfod sut y gall deallusrwydd artiffisial o bosibl gwella effaith ac effeithlonrwydd ein cyfathrebu.<br>Ym mis Medi 2025, fe wnaethom lansio cylchlythyr e-fwletin allanol sy'n cael ei ddosbarthu i tua 1,700 o bobl bob mis, gan roi'r newyddion, yr wybodaeth, y swyddi a'r straeon diweddaraf iddynt gan Archwilio Cymru.<br>Tuag at ddiwedd 2024-25, fe wnaethom gychwyn adolygiad mewnol, gan weithio mewn partneriaeth â'r asiantaeth gyfathrebu FOLK, i:<br>• ddeall anghenion cyfathrebu ein hamrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn well;<br>• casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar ba un a oes sylw perthnasol a phrydlon yn cael ei roi i faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein rhaglen archwilio;<br>• dadansoddi pa mor effeithiol yw ein cyfathrebu presennol o ran ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau gwarchodedig; a<br>• datblygu canllawiau i helpu i ymgorffori cynhwysiant ymhellach drwy ein prosesau cyfathrebu.<br>Ar ôl ystyriaeth o'r argymhellion gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid mewnol allweddol, rhoddwyd nifer o gamau allweddol ar waith yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys diweddariadau pellach i ganllawiau ysgrifennu ar gyfer yr holl staff ac adolygiad o luniau a ddefnyddir mewn adroddiadau. Bydd mwy o fanylion am yr amrywiaeth o gamau gwella sy'n deillio o hyn y bwriedir eu rhoi ar waith neu sy'n cael eu rhoi ar waith yn cael eu darparu yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2025-26 a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2026-2030. |

# Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu

**Blaenoriaethau**

Paratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau ein strategaeth bum mlynedd bresennol drwy roi pwyslais penodol ar themâu yr ydym wedi’u nodi fel rhai hanfodol wrth lunio diwylliant a model gweithredu Archwilio Cymru yn y dyfodol:

- Datblygiadau digidol
- Safonau archwilio sy’n datblygu
- Cwmpas ein gwaith gan gynnwys datblygiadau mewn adroddiadau cynaliadwy
- Sgiliau a ffurf ein gweithlu

**Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26**

**Statws:** Ar y trywydd iawn

**Sylwadau:**

**Datblygiadau digidol**

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom lansio Polisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol newydd. Mae’r Polisi yn cynnig canllawiau eglur i staff ar ddefnyddio offerynnau deallusrwydd artiffisial cymeradwy o ddydd i ddydd, ac ar y broses ar gyfer ystyried a chymeradwyo offerynnau deallusrwydd artiffisial newydd (sy’n seiliedig ar y Llawlyfr Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer Llywodraeth y DU).

Yn cychwyn ym mis Mawrth 2025, cynhaliodd Archwilio Cymru fenter i archwilio’r defnydd posibl o Microsoft Copilot i wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant, a hyder digidol ar draws y sefydliad. Ymgysylltodd y prosiect â charfan amrywiol o 50 o gydweithwyr mewn cynllun peilot strwythuredig i brofi galluoedd Copilot mewn cyd-destunau archwilio a chorfforaethol. Yn rhan o’r fenter hon, fe wnaethom roi ystyriaeth ofalus i ddiogelu data ac ystyriaethau a risgiau moesegol ac eraill.

Ar y cyfan, nodwyd sawl achos defnydd addawol drwy’r cynllun peilot i’w harchwilio ymhellach, yn amodol ar gadw crebwyll a throsolwg dynol. Adroddodd mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn y cynllun peilot hefyd fwy o hyder o ran defnyddio offerynnau digidol. Mae’r prosiect peilot ar gam gwerthuso bellach, ag argymhellion rhagarweiniol ar gyfer ehangu i ystyried mwy o gyfleoedd i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd wedi’i rheoli i helpu i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ein gwaith.

**Safonau archwilio sy’n datblygu a datblygiadau mewn adroddiadau cynaliadwy**

Ni fu unrhyw ddatblygiadau sylweddol yn y maes hwn yn ystod y cyfnod adrodd chwe mis. Rydym wedi parhau i fonitro newidiadau sydd ar eu ffordd yn rhagweithiol wrth i bolisi a chanllawiau newydd ddod ar gael, fel y gallwn werthuso unrhyw oblygiadau i Archwilio Cymru ac ymateb yn briodol.

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2025-26 |
| --- | --- |
| Paratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau ein strategaeth bum mlynedd bresennol drwy roi pwyslais penodol ar themâu yr ydym wedi'u nodi fel rhai hanfodol wrth lunio diwylliant a model gweithredu Archwilio Cymru yn y dyfodol:<br>• Datblygiadau digidol<br>• Safonau archwilio sy'n datblygu<br>• Cwmpas ein gwaith gan gynnwys datblygiadau mewn adroddiadau cynaliadwy<br>• Sgiliau a ffurf ein gweithlu | **Sgiliau a ffurf ein gweithlu**<br>Rydym wedi parhau i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau cynllunio gweithlu strategol, gan gynnwys lansio system rheoli perfformiad newydd, nodi sgiliau a chamau sy'n ofynnol i gefnogi gweithrediad prosiect moderneiddio Gorwelion Archwilio, a rheoli'r sefydliad wrth i ni barhau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad archwilio.<br>Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi monitro amrywiaeth ehangach o fesurau perfformiad i benderfynu pa un a yw ein Strategaeth Gweithlu yn cyflawni fel y bwriadwyd ac wedi craffu ar sut y rheolir swyddi gwag i sicrhau bod penderfyniadau recriwtio yn cyd-fynd yn llawn â'r Strategaeth honno.<br>Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi gweithio gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) i fapio llwybrau sgiliau ar gyfer swyddi archwilio cyfrifon penodol. Bydd y gwaith hwn yn galluogi cydweithwyr i nodi anghenion dysgu yn well ar gyfer datblygiad gyrfaol ac mae wedi cynnwys cyhoeddi 'catalog' sgiliau wedi'i ddiweddaru yn cwmpasu sgiliau annhechnegol a thechnegol.<br>Ynghyd ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU, rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn treialu cymhwyster archwilydd gwerth am arian y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) lefel tystysgrif, ac i ddatblygu cymhwyster lefel uwch newydd.<br>Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddiweddaru ein fframwaith sgiliau digidol. Mae'r prosiect yn cynnwys gweithgor amlddisgyblaeth bach ac yn ceisio nodi ac addasu'n briodol arfer gorau mewn fframweithiau sgiliau digidol sy'n weithredol mewn sefydliadau eraill. |

# Dangosyddion perfformiad allweddol

23 Caiff y sefyllfa ar 30 Medi 2025 o ran bodloni'r 18 o dargedau dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26 ei chrynhoi isod. Yn yr arddangosyn, mae rhai rhifau wedi'u talgrynnu i'w gwneud yn haws eu darllen a'u cymharu. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol yn cyd-fynd â'r meysydd pwyslais strategol y maent yn berthnasol iddynt.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y farn archwilio cyfrifon wedi'i chyflawni erbyn y terfyn amser statudol neu arfaethedig.[1] | 100% | ● 99% | ● 100% |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adrodd amserol ac effeithiol. | 90% | ● 81% | ● 80% |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

1 Pan dderbynnir cyfrifon ar amser ac nad oes angen adroddiad budd y cyhoedd.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Ansawdd | Nifer yr archwiliadau a adolygwyd sy'n cael eu cyflawni yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Pob archwiliad o'r sampl wedi'i asesu yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf | 🟠 6 allan o 8 | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau. | O leiaf 90% | 🟠 76% | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |
| 5 | Rhoi mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith ni, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall. | O leiaf 80% | 🟢 78% | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |

🟢 Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed 🟠 Angen gwelliant 🔴 Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Ysgogi gwelliannau | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | 🟠 62% | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |
| 7 | Arbedion wedi'u nodi | Gwerth arbedion posibl, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026 | 🟢 £16 miliwn | 🟢 £16 miliwn[2] |

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Digwyddiadau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein hallbynnau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | 🟢 100% | 🟢 100% |

🟢 Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed 🟠 Angen gwelliant 🔴 Angen gwelliant sylweddol

2 Bydd gwaith archwilio penodol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn caniatáu i ni gyrraedd ein targed o £30 miliwn o leiaf erbyn 2026.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 53,000 bob blwyddyn | ● 81,000 | ● 36,900 |
| 10 | Y cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio â'n postiadau er enghraifft eu hoffi, nodi sylw, neu ail-drydar/ rhannu. | 4,000 bob blwyddyn | ● 3,500 | ● 2,500 |
| 11 | Rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno'r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | 50 bob blwyddyn | ● 53 | ● 31[3] |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

3 Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd yn rhan o'n busnes archwilio mater o drefn. Pan rydym wedi mynychu grwpiau penodol yn rheolaidd yn ymwneud ag un pwnc, rydym wedi cyfrif y rhain yn gyfunol fel un digwyddiad.

# Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol. | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol ar gyfer arolwg diweddaraf y Gwasanaeth Sifil | 71%[4] | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |
| 13 | Trosiant | Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru o'u gwirfodd bob blwyddyn. | Rhwng 5% a 10% | 5.8% | 3.8% |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Cyfran cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch. | Llai na 4% | 3.9% | 3.5% |
| 15 | Balans ariannol | Amrywiant tanwariant net ar incwm a gwariant o hynny a nodir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | Llai na 2% o'r gyllideb gwariant gros | 3.2% | 1.7% |

Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed  Angen gwelliant  Angen gwelliant sylweddol

4 64% oedd meincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ym mis Hydref 2024.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2025-26 | Perfformiad 2024-25 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 | Arbedion costau | Gwerth arbedion cost yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes. | £200,000 fel y nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2025-26 | ● Rhagorwyd ar y targed arbedion nad yw'n gyflog o £400,000 | ● £200,000 |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$.[5] | Llai na 290 tunnell (gostyngiad o 50% ers gwaelodlin 2019-20) | ● 380 tunnell | ● 170 tunnell |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo am y tro cyntaf yn eu harholiadau Lefel Broffesiynol ac Uwch gyda'r Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% | ● 85% | Mesur blynyddol – data ddim ar gael eto |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

5 Heb gynnwys amcangyfrifon allyriadau cadwyn gyflenwi yr adroddir arnynt ar wahân yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd blynyddol.

**Archwilio** Cymru
**Audit** Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.